CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 23ain HYDREF 2018.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

2 YMDDIHEURIAD:

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd..

3.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol.**

3.2.1 Ni oedd neb yn datgan diddordeb.

4 ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIROL.

4.1 Cafwyd adroddiad diweddaraf safle y Sipsiwn ger Star.

4.2 Cafwyd adroddiad diweddaraf Moderneiddio Ysgolion Mon.

4.3 Cafwyd adroddiad bellach ynghylch cyllideb y Cyngor Sir ac bydd codiad yn y dreth yn disgwyliedig. Soniodd hefyd am y costau mawr ac anochel sydd gan y Cyngor gyda plant mewn angen.

5 CYWIRO, DERBYN & ARWYDDO COFNODION MISOL Y CYNGOR (25ain Medi 2018).

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod Mis Medi 2018 yn gywir. **(IO/RR).**

Arwyddo.....

6 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

6.1 **Ail-Wynebu Offer Cae Chwarae Cae Mawr** – parhau i ddisgwyl am yr ail dyfnbris er mwyn cymharu.

6.2 **Torri Coeden 144 Gaerwen Uchaf** – dywedodd Cynghorydd Cynrig Jones ei fod wedi gwneud y gwaith tacluso oedd angen ac fe ddiolchodd y Cadeirydd iddo.

6.3 **Llwybr 33** – dim ateb.

6.4 **Partiau Ofer y Caeau Chwarae** - cytuno symud ymlaen a prynu y partiau gwerth £596.20 + TAW oddiwrth Cwmni HAGS.

6.5 **Ffens Gornel Rhwng yr Ysgol & Cae Chwarae Mawr** – derbynwiyd amcancyfrif £460 + TAW oddiwrth Mr Huw Frazer Owen ar gyfer trin y ffens ac fod y gwaith am gychwyn mor sydyn a phosib.

6.6 **Archwiliad & Yswiriant Ofer y Caeau Chwarae – dywedodd Cwmni Yswiriant Zurich mai dim ond unwaith y flwyddyn y byddant yn trefnu archwiliad o'r Caeau Chwarae - y** Clerc drefnu am dyfnbris gyda'r Cwmni Yswiriant Zurich neu ROSPA.

6.7 **Giat Cae Chwarae Mawr –** angen ystyried gosod arwydd ar y giat yn atal cerbydau rhag parcio yn dilyn adroddiad fod Mr Dafydd Hughes wedi methu torri gwair ar ddau achlysur yn ystod yr Haf – y Clerc i anfon llythyr at yr Adran Briffyrdd yn gofyn ystyried gosod llinellau gwyn tu allan i fynediad y Cae Chwarae.

6.8 **Lon Llangaffo –** angen sylw ynghylch a ail lleoli arwydd 40mya a datrys gordyfiant ar bolyn/ffens sydd wedi siglo dan bwysau ochr isa Capel Berea.- Clerc i anfon llythyr i'r Cyngor Sir.

6.9 **Rheiliau Croesfan Pelican A5 –** angen sylw. Clerc i anfon llythyr i'r Cyngor Sir.

6.10 **Datblygiad Newydd Pentre Berw gyferbyn a Holland Arms** – ebost oddiwrth y datblygwyr yn gofyn am enw newydd i'r 3 Annedd – penderfynwyd glustnodi'r cyfrifoldeb yn nhwylo Cynghorydd Mr Raymond Evans – enw newydd fydd Stad Lon Ceint.

6.11 **Posteri Lleoliad Difibriliwr –** cadarnhawyd fod y posteri wedi ei lleoli.

7 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

7.1 **Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 31/10/2018** - cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Hydref 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

Arwyddo.....

TUDALEN 2.

8 MATERION CAEAU CHWARAE.

8.1 **Postyn Gôl & Graffiti –** cytunwyd y Cyngor i dderbyn dyfnbris £680 + TAW gan Cwmni William Evans & Son i ymgymeryd a'r gwaith.
Datganodd Cynghorydd Raymond Evans diddordeb personol yn un sydd yn rhagfarnu ac ni chymerodd rhan yn y trafodaethau/penderfyniad

9 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL.

9.1 **Llecynnau Agored mewn Datglygiadau Tai Newydd –** Cyng Ian Owen i baratoi sylwadau a gyrru i'r Clerc erbyn 23 Tachwedd 2018.

9.2 **Tai Marchnad Lleol –** Cyng Einion Williams i baratoi sylwadau a gyrru i'r Clerc erbyn 23 Tachwedd 2018.

10. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

10.1 **Pwyllgor Y Ganolfan –** cafwyd adroddiad gan Cyng Ian Owen am y cyfarfod nesaf wedi ei drefnu ar Nos Lun 12/11/2018, y gwaith Cynnal & Cadw sydd angen, sefyllfa ariannol, digwyddiad parcio diweddar ac fod defnydd yn Ganolfan yn cynyddu.

10.2 **Ymgyrch y Peilonau –** nodwyd fod cyfarfod wedi bod yn Ysgol David Hughes ac fod yno deiseb gyda 10,000 o lofnodion wedi ei gasglu yn barod yn gofyn i'r Grid mabwysiadau cynllun tanddaeraol.

10.3 **Un Llais Cymru – Dim Adroddiad.**

10.4 **Pwyllgor Llywodraethwyr yr Ysgol –** roedd y Cyngor Sir angen tystiolaeth ysgrifenedig fod Cyng Ian Owen wedi ei benodi fel cynrychiolwr y Cyngor ar bwrdd y Llywodraethwr.

11 GOHEBIAETH

11.1 **Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned & Thref yng Nghymru (Adroddiad Terfynnol) –** rhannodd y Clerc gwybodaeth priodol o'r adroddiad gyda'r aelodau.

11.2 **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol –** dywedodd y Clerc y bydd rhaid i'r aelodau wneud penderfyniad annibynnol os am hawlio £150.00 wedi ei glustnodi yn yr adroddiad fel Cynghorydd Cymunedol.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 27ain TACHWEDD 2018.

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:10yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.